Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2012
## 14.30 - 16.00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Dave Tosh (Cyfarwyddwr TGCh)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**
**Sulafa Thomas (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Sian Wilkins (Pennaeth Deddfwriaeth)**
**Virginia Hawkins (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad Dros Dro)**
**Mike Snook (Pennaeth Ystadau a Chyswllt Cyntaf Dros Dro)**
**Craig Stephenson (Pennaeth Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Anna Daniel (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr)**
**Joanest Jackson (Uwch Gynghorydd Cyfreithiol)**
**John Grimes (Pennaeth Llywodraethu)**
**Tanwen Summers (Ysgrifenyddiaeth)**

**1.0 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasnaethau Cyfreithiol) a chroesawodd y Bwrdd Joanest Jackson a oedd yn bresennol ar ei ran.**

**1.2 Croesawodd y Bwrdd Virginia Hawkins, Mike Snook ac Anna Daniel i'r cyfarfod yn dilyn eu llwyddiant yn y broses recriwtio ddiweddar.**

**1.3 Croesawodd y Bwrdd John Grimes i'r cyfarfod hefyd gan mai ef fyddai'n cyflwyno'r eitem gyntaf ar yr agenda.**

**1.4 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.**

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1 Cytunodd Mike Snook i ddrafftio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion.**

**3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2012**

**3.1 Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.**

**4.0 Materion sy'n codi**

**4.1 Nododd y Bwrdd ei lawenydd ynghylch y cynnydd yr oedd John Chick yn ei wneud ar ei daith feicio elusennol a nododd bod John wedi cyrraedd Istanbwl yn gynt na'r disgwyl.**

**Cam i'w gymryd: Dianne Bevan i anfon neges at John ar ran y Bwrdd yn dymuno pob hwyl iddo ar ei daith yn ôl.**

**Trafodaeth ar fusnes o bwys**

**5.0 Ein trefniadau ar gyfer rheoli'r Rhaglen Fuddsoddi**

**5.1 Cytunodd y Bwrdd i sefydlu is-grŵp bach i oruchwylio rhaglen fuddsoddi'r Cynulliad.**

**5.2 Bydd yr is-grŵp, sy'n cynnwys Claire Clancy, Adrian Crompton, Dave Tosh a Steve O'Donoghue, yn cynnal rhaglen fuddsoddi pum mlynedd ar gyfer y Cynulliad ac yn ei hadolygu'n barhaus, yn blaenoriaethu buddsoddiad a sut y dyrennir cyllid i brosiectau, yn archwilio ceisiadau am gyllid ac yn eu cymeradwyo, yn ystyried adroddiadau cynnydd cyfnodol ar brosiectau ac yn cymeradwyo adroddiadau terfynu ac yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Rheoli fel sy'n briodol.**

**5.3 Cytunodd y Bwrdd y dylai'r is-grŵp newydd gyfarfod ac ystyried cwmpas ei gylch gwaith, ei gysylltiad â'r Bwrdd Rheoli, a'r angen i roi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau o ran adnoddau sy'n deillio o brosiectau, gan gynnwys adnoddau staffio a'r effaith bosibl ar sgiliau allweddol a thimau.**

**5.4 Bu'r Bwrdd hefyd yn trafod pa sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer aelodau'r is-grŵp, lle yw'r lle gorau i osod pwyntiau**

penderfyniadau ar gyllid, ynghyd â thrafodaeth ar y rhyngwynebu rhwng yr is-grŵp a byrddau prosiectau.

Cam i'w gymryd: Yr is-grŵp i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf a'r cylch gorchwyl terfynol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

6.0 Risgiau corfforaethol

6.1 Roedd y Bwrdd yn fodlon â'r risgiau a nodwyd yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Teimlwyd y byddai'n werthfawr i'r Bwrdd adolygu'r risgiau corfforaethol yn rheolaidd gan fod hyn yn ffordd o sicrhau bod y gwaith o reoli risgiau'n cael ei wneud yn barhaus a bod yr holl risgiau perthnasol wedi'u nodi. Yn ogystal, roedd y dull hwn yn rhoi cyfle i aelodau'r Bwrdd, nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â risgiau penodol, wneud cyfraniad o safbwynt newydd.

Cam i'w gymryd: Claire Clancy a Kathryn Hughes i drafod y dull y caiff Risgiau Corfforaethol eu cyflwyno yn y dyfodol.

Eitemau i'w trafod yn fyr

7.0 Adroddiad rheolaeth ariannol misol

7.1 Trafododd y Bwrdd yr adroddiad rheolaeth ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012 gan nodi bod tanwariant o £256,000 (0.8%) wedi'i gadarnhau ar gyfer y flwyddyn. Roedd hon yn sefyllfa diwedd blwyddyn ddelfrydol a oedd yn dangos rheolaeth a defnydd effeithiol o gyllideb y Comisiwn. Y targed corfforaethol ar gyfer tanwariant oedd 2% neu is.

7.2 Nododd y Bwrdd y bydd papur yn cael ei gyflwyno cyn hir sy'n nodi rôl bwysig y Bwrdd o fewn y broses gyllidebu.

8.0 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Byrddau Cynghori Staff

8.1 Ystyriodd y Bwrdd bapur sy'n rhoi adborth gan un o'r grwpiau a sefydlwyd mewn ymateb i'r arolwg staff diweddar - ar gyfathrebu mewnol.

8.2 Roedd y Bwrdd yn falch o nodi cefnogaeth frwdfrydig aelodau'r grŵp i'r gwaith o wella cyfathrebu ac ymgysylltiad â staff.

8.3 Cadarnhaodd aelodau'r Bwrdd eu hymrwymiad personol i fod yn fwy gweladwy ac eglurodd Claire Clancy fod ei blog mewnol newydd fel Prif Weithredwr wedi cael ei lansio.

8.4 Bydd sylwadau'r grŵp yn cael eu defnyddio i lywio gwahanol ddulliau mewnol o gyfathrebu, gan gynnwys y cyfarfodydd i'r holl staff. Bwriedir cynnal arolwg staff byrrach cyn dechrau toriad yr haf. Wrth drafod y mater, roedd aelodau'r Bwrdd yn awyddus i sicrhau bod cyfathrebu dwy ffordd yn cael ei ystyried.

8.5 Nododd y Bwrdd y bydd yr ail grŵp staff a sefydlwyd i ystyried y broses Rheoli Perfformiad yn cwrdd ar 2 Gorffennaf 2012.

9.0 Newidiadau i e-ddemocratiaeth

9.1 Nododd y Bwrdd bod gwaith ar y gweill i adolygu'r llwyfannau hyn, gan gynnwys gwefannau, gwefannau rhwydweithio cymdeithasol a llwyfannau darlledu. Y nod yw sicrhau bod y llwyfannau hyn yn parhau i gefnogi'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y strategaeth e-ddemocratiaeth.

10.0 Gwasanaethau dwyieithog

10.1 Nododd y Bwrdd y cynnydd a gafwyd o ran datblygu Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn, a chroesawodd yr ymrwymiad i ymgynghori â staff wrth ddatblygu'r Cynllun.

10.2 Cytunodd y Bwrdd i drafod y mater yn llawn yn ei gyfarfod nesaf ar 25 Mehefin 2012.

Cam i'w gymryd: Non Gwilym i anfon fersiwn drafft presennol y Cynllun ac aelodau'r Bwrdd i'w drafod gyda'u timau unigol.

Cloi'r cyfarfod

11.0 Unrhyw fater arall

11.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**

**Mehefin 2012**